Panel Diogelwch Cydenwadol
Interdenominational Protection Panel

Tachwedd 2019

Annwyl Ysgrifennydd,

Par: Sesiwn hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus ardal Penllyn

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod rhaid i bob sefydliad ac elusen gyfrifol ddangos ymwybyddiaeth o ddiogelu plant ac oedolion bregus. Rwy'n falch felly i adael i chi wybod bod hyfforddiant diogelu wedi'i threfnu yn ardal Penllyn mis nesaf. Amgaeaf boster i'ch cynorthwyo i hysbysebu'r sesiwn.

yn: Capel Tegid Bala LL23 7EL
ar: Pnawn Mawrth 3ydd o Ragfyr 2019 o: 1 tan 3.30 y.p.

A wnewch chi adael i'ch Athrawon Ysgol Sul, Gwirfoddolwyr Plant a Phobl Ifanc, Ymwelwyr Bugeiliol, Diaconiaid, Blaenoriaid ac Ymddiriedolwyr wybod am y sesiwn os gwelwch yn dda.

Mae'r sesiwn yn arbennig ar gyfer aelodau Capeli Presbyteraidd, Annibynwyr a Bedyddwyr yr ardal ac yn ffocysu a'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus (sef ein polisi diogelu) ond croeso i bawb.

Mae'n bwysig i'r bobl berthnasol ddod fel y gallwch chi, fel eglwys, fod yn hyderus bod pawb yn gwybod sut i ymateb os oes ganddynt bryderon am unigolyn neu sefyllfa ac yn deall gofynion eich polisi diogelu. Yn ogystal, bydd yr hyfforddiant yn eich cynorthwyo i gydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau a llawer o bolisïau yswiriant.

Cysylltwch â ni ar y rhif ffôn neu e-bost isod os dymunwch unrhyw wybodaeth bellach.

Gyda diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Julie Edwards
Swyddog Hyfforddiant a Diogelu

Panel Diogelwch, 1 Vale Parc Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych LL16 5TA
☎ 01745 817584 post@paneldiogelwch.org.uk www.paneldiogelwch.org.uk